

Diweddariad Ystadegau ac Ymchwil Tai Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2020)

Ymchwil Tai Llywodraeth Cymru

Mae'r prosiectau ymchwil canlynol ar y gweill:

- Mae prosiect ymchwil ar **Werthu a Defnyddio Lesddaliadau yng Nghymru** ar waith. Bydd y prosiect yn nodi ac yn archwilio profiadau lesddeiliaid o brynu a byw mewn eiddo lesddaliad.
- Mae **Dadansoddiad o Wariant ar Gymhorthion ac Addasiadau yng Nghymru** yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Nod y prosiect yw deall a yw'r system bresennol o addasiadau yn adlewyrchu'r angen ac ym mha ffordd, ac a yw'n darparu gwasanaeth o safon i ddefnyddwyr a gwerth am arian i dalwyr treth.
- Mae **Gwerthusiad o Gynllun Braenaru Prydlesu'r Sector Rhentu Preifat** newydd ddechrau. Nod y gwerthusiad yw deall sut mae'r cynllun yn gweithredu yn yr awdurdodau lleol braenaru, gan gynnwys barn landlordiaid a thenantiaid.
- Mae **Arolwg o Farn a Phrofiadau Tenantiaid o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)** yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Nod yr arolwg yw deall barn tenantiaid am y Safon bresennol er mwyn llywio'r datblygiad o iteriad newydd o SATC.

Gellir dod o hyd i'r holl adroddiadau ymchwil tai drwy:

llyw.cymru/ystadegau

Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai

Mae'r cyhoeddiadau terfynol ar gyfer arolwg 2017-18 wedi'u gohirio o ganlyniad i'r ffaith bod y tîm yn helpu gydag ystadegau Covid-19. Mae'r holl ddadansoddiadau sydd wedi'u cyhoeddi hyd yma i'w gweld ar ein tudalennau gwe a'r tudalennau gwe ar dlodi tanwydd. Bydd adroddiad ar hygyrchedd y stoc anheddau yn cael ei gyhoeddi pan fydd adnoddau'n caniatáu hynny. Ar ôl hynny byddwn yn cyhoeddi pecyn o sleidiau ar stoc anheddau a phriodoleddau aelwydydd ac yn dechrau dadansoddi ein hadroddiad arfaethedig diwethaf ar gyfer arolwg 2017-18: y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS).

Mae'r tîm yn parhau i gyfrannu at gamau perthnasol o waith Grŵp Ystadegau Tai Trawslywodraethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a gwaith Data Gweinyddol ar gyfer y cyfrifiad.

Rydym yn gweithio gyda Thîm Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i ddarparu data o'r arolwg a chymorth dadansoddol ar eu gwaith i ddatblygu SATC ar ôl 2020. Yn yr un modd, rydym

yn gweithio gyda'r Tîm Modelau Arloesol a Datgarboneiddio Tai ar ddatblygu a chyflwyno rhaglen weithredu i ddatgarboneiddio holl gartrefi Cymru erbyn 2050.

Cynhelir trafodaethau cychwynnol ag adrannau polisi ynghylch ehangu'r ystod o ystadegau sy'n ymwneud â thlodi tanwydd a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru (a ddylanwadwyd gan adroddiadau BEIS), felly os oes gan unrhyw un awgrymiadau, mae croeso ichi [gysylltu â ni](#).

Mae gwaith i sicrhau bod set ddata ddiennw'r Arolwg o Gyflwr Tai Cymru ar gael ar Archif Ddata'r DU yn mynd rhagddo, ac mae data manylach ar gael yn uniongyrchol gan dîm yr Arolwg o Gyflwr Tai Cymru. Rydym yn bwriadu rhoi data'r Arolwg ym manc data SAIL, er mwyn caniatáu i ymchwilwyr gael gafael ar ddata diennw o dan drwydded arbennig.

Roeddem wedi cynnig yn wreiddiol, yn amodol ar gytundeb y Gweinidog, y dylid cynnal yr Arolwg o Gyflwr Tai Cymru nesaf yn 2021-22 – i gyd-fynd â'r cyfrifiad, blwyddyn olaf contract presennol Arolwg Cenedlaethol Cymru, ac i gyd-fynd â chylch NIHCS, er mwyn rhoi darlun o gyflwr tai y DU. Mae Covid-19 wedi cael effaith ar y cynigion hyn wrth i adnoddau gael eu hailgyfeirio i ganolbwyntio ar ystadegau, modelu a dadansoddi sy'n ymwneud ag ymateb COVID-19, ac mae newidiadau wedi'u cyflwyno i fodel yr Arolwg Cenedlaethol mewn ymateb i'r pandemig. O ganlyniad, ni chynhelir yr Arolwg o Gyflwr Tai Cymru yn 2021-22. Rydym yn cydweithio â'n Bwrdd Rhaglen a chydweithwyr polisi i sefydlu cynllun ar gyfer y blynyddoedd i ddod i sicrhau bod y Rhaglen Dystiolaeth o Gyflwr Tai yn darparu tystiolaeth gadarn, effeithlon ac amserol, gan ddiwallu anghenion defnyddwyr mewnol ac allanol.

Adnodd Dadansoddi'r Stoc o Dai i Gymru (HSAR)

Mae data presennol HSAR wedi'u trosglwyddo i Blatfform e-Ymchwil Diogel y DU (UKSeRP) Llywodraeth Cymru sydd bellach yn fyw ac yn dechrau cael ei ddefnyddio gan dimau ystadegau ehangach hefyd. Mae hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu caniatáu i ymchwilwyr gael mynediad i setiau data Llywodraeth Cymru drwy'r platfform hwn.

Rydym yn cydweithio ag Uned Ymchwil Data Gweinyddol (ADRU) Llywodraeth Cymru i ddarparu achosion busnes i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn rhannu data perthnasol o dan y Ddeddf Economi Ddigidol, megis gwybodaeth am y Dreth Gyngor. Rydym hefyd yn ystyried cael gafael ar ffynonellau data eraill o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol, megis data defnyddio ynni BEIS.

Os oes gan unrhyw un awgrymiadau ar gyfer dadansoddiadau a fyddai'n brosiectau arddangos defnyddiol, neu sydd â diddordeb mewn cael mynediad at ddata ar gyfer eu prosiectau eu hunain, cysylltwch â ni.

Ystadegau Tai

Wrth i'r galw gynyddu am ystadegau a data i fesur effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19), bu'n rhaid inni newid ein harferion o ran casglu a rhyddhau data, gan roi sylw i waith

dadansoddi ac ystadegau sy'n flaenoriaeth. Mae ein [datganiad](#) yn esbonio hyn ymhellach ac, yn unol â [chanllawiau'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau](#) (Saesneg yn unig), mae penderfyniadau wedi'u gwneud i ganslo neu ohirio rhai cyhoeddiadau.

Cyhoeddiadau Diweddar

Mae pob datganiad ar gael o llyw.cymru/ystadegau

Amcangyfrifon o stoc yr anheddau

Ar 17 Medi, cyhoeddwyd '[Amcangyfrifon o stoc yr anheddau: ar 31 Mawrth 2020](#)'.

Oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19), cafodd rhai casgliadau data tai sy'n bwydo i mewn i'r amcangyfrifon hyn eu canslo. Roedd y cydrannau hynny wedi'u hamcangyfrif. Mae hyn yn golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon o stoc yr anheddau ar gyfer mis Mawrth 2020. Gweler y datganiad am fanylion llawn.

Amcangyfrifon o aelwydydd

Ar 29 Medi, cyhoeddwyd ystadegau ar [amcangyfrif o nifer yr aelwydydd yng Nghymru](#) (canol 2019).

Cymorth i Brynu

Ar 30 Medi, cyhoeddwyd [ystadegau blynyddol Cymorth i Brynu ar gyfer Ebrill 2019 i Fawrth 2020](#).

Ar 22 Hydref, cyhoeddwyd [ystadegau chwarterol Cymorth i Brynu](#) ar gyfer Ebrill-Mehefin 2020 a Gorffennaf-Medi 2020.

Ystadegau (blynyddol) statudol ar ddigartrefedd a'r dangosfwrdd rhyngweithiol newydd

Ar 5 Tachwedd, cyhoeddwyd [ystadegau statudol ar ddigartrefedd ar gyfer 2019-20](#).

Gohiriwyd yr ystadegau hyn o'r dyddiad cyhoeddi cychwynnol ar 30 Gorffennaf oherwydd darpariaeth data anghyflawn a'r broses sicrhau ansawdd.

Yn ddiweddarach ym mis Tachwedd, cyhoeddwyd [dangosfwrdd rhyngweithiol newydd ar gyfer ystadegau statudol ar ddigartrefedd](#).

Gwybodaeth reoli fisol newydd am y ddarpariaeth llety ar gyfer pobl ddigartref a chysgu allan

Ar 5 Tachwedd a 10 Rhagfyr, cyhoeddwyd ein hargraffiad 1af ac ail argraffiad o [wybodaeth reoli fisol](#) ar gysgu allan a'r ddarpariaeth llety ar gyfer pobl ddigartref. Nid yw'r wybodaeth reoli hon wedi cael yr un lefel o sicrwydd ansawdd ag ystadegau swyddogol.

Byddwn yn parhau i gyhoeddi'r wybodaeth reoli hon yn fisol yn y dyfodol.

Rydym yn croesawu adborth ar gynnwys a chyflwyniad unrhyw rai o'r ystadegau hyn a'r wybodaeth reoli, drwy e-bost i ystadegau.tai@llyw.cymru.

Cyhoeddiadau sydd ar y gweill

Dyma ddiweddariad ar gyhoeddiadau arfaethedig ar gyfer rhan gyntaf 2021. Nodwch fod yr wybodaeth hon yn agored i newid.

Teitl	Dyddiad cyhoeddi	Sylwadau
Digartrefedd Statudol: Ebrill-Mehefin 2020 a Gorffennaf-Medi 2020	Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn yn flaenorol i'w cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020. Nid oeddem wedi gallu bwrw ymlaen â'r cynllun hwnnw. Yn hytrach, byddwn yn casglu'r dadansoddiad chwarterol ar gyfer 2020-21 ar ôl Mawrth 2021 ac ochr yn ochr â'r casgliad blynyddol ar gyfer data 2020-21. Bydd yr ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi yn haf 2021.	
Dymchweliadau tai, 2019-20		Publication of these outputs was previously announced for 17 December 2020. The decision is to not collect or publish for 2019-20.
Peryglon mewn tai a thrwyddedau, 2019-20		
Cymorth i Brynu, Hydref i Ragfyr 2020	21 Ionawr 2021	Yn ôl y bwriad.
Cyfrif cysgu allan, Tachwedd 2020	4 Chwefror 2021 (a gyhoeddwyd yn flaenorol)	Er mwyn ysgafnhau'r baich ar awdurdodau lleol ac wrth inni ddechrau cyhoeddi gwybodaeth reoli fisol am ddigartrefedd a chysgu allan, mae'r cyfrif blynyddol ar gysgu allan ar gyfer mis Tachwedd 2020 wedi'i atal dros dro. Adroddiad ar Benderfyniad
Cymorth ar gyfer gwelliannau tai, 2019-20	11 Chwefror 2021 (a gyhoeddwyd yn flaenorol)	Ni fyddwn yn casglu nac yn cyhoeddi ar gyfer 2019-20.
Eiddo gwag, gosod eiddo ac ôl-ddyledion tai cymdeithasol, 2019-20	4 Mawrth 2021 (a gyhoeddwyd yn flaenorol)	Ni fyddwn yn casglu nac yn cyhoeddi ar gyfer 2019-20.
Darpariaeth Tai Fforddiadwy 2019-20	Erbyn Mawrth 2021	Mae'r broses o gasglu data ar y gweill.

Cyfarfod nesaf y Grŵp Gwybodaeth am Dai

Bydd y cyfarfod nesaf yn canolbwyntio ar Gyfrifiad 2021. Bydd y cyfarfod hwnnw'n cael ei gynnal drwy Microsoft Teams am **1:45-4pm ar 28 Ionawr 2021**. Bydd yn gyfle i drafod y gofynion ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021 sy'n ymwneud â thai. Bydd agenda'n dilyn cyn bo hir.

Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr uchod, neu os hoffech gael cyngor ystadegol ar ddefnyddio data tai (gan gynnwys, er enghraifft, yn absenoldeb data), cysylltwch â:

ystadegau.tai@llyw.cymru.